Ysgol Uwchradd Bodedern

Polisi Gwrth-Fwlio Technolegol (Cyberbullying): crynodeb ar gyfer gwefan yr ysgol

Anti E-bullying Policy (Cyberbullying): summary for school website

Adolygir y polisi yng nghyd-destun offeryn monitro diogelwch HWB 360º Cymru Ddiogel. Cefnogir y Polisi gan amrywiaeth o bolisïau a strwythurau cefnogaeth yn yr ysgol sy'n ymwneud â gwrthfwlio a diogelu plant.

This policy is reviewed in conjunction with HUB 360º Safe Wales. The policy is supported by other school policies which deal with anti - bullying and safeguarding.

Mae bwlio technolegol (cyberbullying) yn ddull difrifol o fwlio.

Using technology to bully others (cyberbullying) is a serious form of bullying.

Diffiniad

Gwelir gwrthfwlio technolegol fel gweithred fwriadol a bygythiol gan unigolyn neu gan griw sy'n defnyddio cyswllt electronig, yn gyson tros amser, yn erbyn unigolyn nad yw'n medru amddiffyn ef /hi ei hun.

Definition

Cyberbullying is seen as an intentional and threatening act by an individual or a group of individuals who use technology over a period of time against individuals who cannot protect themselves.

Gall bwlio technolegol gynnwys defnydd **amhriodol** o'r canlynol:-

- Neges destun;
- Llun/clip-fideo;
- Galwadau ffôn symudol;
- E-bostio;
- Sgwrsio 'chat-room';
- Rhannu ffeiliau trwy gyfrwng Bluetooth;
- Safweoedd.

*Cyberbullying can include **inappropriate** use of the following:-*

- *Texting;*
- *Photographs / video-clip;*
- *Mobile phone messages*
- *E-mails;*
- *Chat-rooms;*
- *Sharing files through Bluetooth;*
- *Websites*

Disgwyliadau'r ysgol

- fod rhaglenni gwaith a chwricwlwm technoleg gwybodaeth yn hybu ac yn pwysleisio dilyniant a datblygiad cadarn a diogel mewn meysydd technoleg gyfathrebol;
- fod disgyblion yn parchu eraill trwy ddefnyddio'r dechnoleg yn gyfrifol ac i dderbyn cyfrifoldeb am ddiogelwch a chyfrinachedd y sustemau o fewn yr ysgol.
- fod rhaglen o hyfforddiant ar arferion da yn y maes yn weithredol ar gyfer pob aelod o staff ysgol;
- fod dulliau rhwystro mynediad yn weithredol, a bod y rhain yn cael eu diweddaru'n gyson;

- fod goruchwyliaeth ddigonol a monitro'r defnydd a wneir o'r rhyngrwyd ac e-bost yn yr ysgol;

- fod polisi penodol ynglŷn â dyfeisiau yn weithredol o fewn yr ysgol, ac ar adegau eraill pan mae'r disgyblion dan ofal yr ysgol;
- fod rhieni yn llawn ymwybodol o bolisi ac arferion da'r ysgol, gan godi eu hymwybyddiaeth o ddatblygiadau cyfoes yn y maes a hawliau'r ysgol i fonitro'r defnydd a wneir gan eu plant o dechnoleg gyfathrebol.
- fod y polisi a'r ddogfennaeth gysylltiedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â threfn adolygu gytunedig

School's expectations

- *that schemes of work and the information technology curriculum promotes and puts emphasis on the development of the strong and safe use of information technology;*
- *for pupils to respect others through responsible use of technology and to accept responsibility for safety and confidentiality of systems within the school;*
- *that the school provides a program of training and good practice in the field for every member of staff.*
- *that school ensures that the school's safe filters are constantly monitored.*
- *that appropriate supervision and monitoring of the use of the internet and e-mails are within school.*
- *that the school's policy regarding appropriate use of devices is effective within school and during other times when pupils are under the care of the school.*
- *for parents to be aware of the policy and the school's good practices, raising awareness of current developments in the field and the school's rights to monitor their child's use of information technology within the school.*
- *that the policies and relevant documents are regularly reviewed under the school's agreed reviewing process*

Bwlio Technolegol -Côd Ymarfer i Ddisgyblion

Os ydych yn cael eich bwlio'n yn yr ysgol:

- Siaradwch â'ch rhieni, tiwtor, prif diwtor neu athro/awes.
- Cadwch ddyddiadur ac unrhyw dystiolaeth arall .
- Cadwch unrhyw neges neu lun bygythiol neu anweddus fel tystiolaeth.
- Cysylltwch â'r darparwr gwasanaeth / CEOP / THINKUKNOW – gall y cwmni neu asiantaeth eich helpu i ddal y bwli.
- Newidiwch rif eich ffôn symudol, a'i roi i ffrindiau agos yn unig.
- Ystyriwch ddefnyddio dulliau rhwystro (blocio), e.e. meddalwedd i rwystro e-byst maleisus, neu hidlen (filter).
- Peidiwch ag ymateb i negeseuon, gall hyn wneud pethau'n waeth. Mae ateb neges yn ei gwneud hi'n haws i'r bwli, a bydd yn diflasu'n gynt o lawer os byddwch chi'n anwybyddu'r neges.
- Byddwch yn barchus ac yn gwrtais bob amser wrth gyfathrebu'n electroneg.
- Newidiwch eich ffugenw a'ch cyfrinair yn aml os yw hynny'n ymarferol posib– mae hyn yn gwneud pethau'n anoddach i'r bwli.
- Peidiwch â rhoi manylion personol ar lein. Mewn stafelloedd sgwrsio, gall ddatgelu eich cyfeiriad, eich ysgol ayyb, roi gwybodaeth ddefnyddiol iawn i'r bwli.

- Peidiwch ag anfon manylion/negeseuon anweddus ymlaen i berson arall. Os ydi'r manylion yn cyfeirio atoch chi, cadwch y manylion, fel arall dileu yw'r gorau, a pheidio ag ymateb.
- Peidiwch ar unrhyw gyfrif ddatgelu cyfrinair na cyfrin-rif o'ch ffôn symudol neu o'ch cyfrif e-bost.
- Cofiwch hefyd fod anfon negeseuon anweddus a bygythiol yn anghyfreithlon.
- Cyfeiriwch unrhyw fynediad damweiniol i safweoedd anaddas i berson cymwys.
- Mae'r ysgol yn cyfeirio achosion o fwlio technolegol at yr heddlu.

E-bullying – Code of Practice for Children

If you are bullied in the school:

- *Talk to your parents, tutor, head of year or a teacher.*
- *Keep a diary and any other evidence if you are being bullied.*
- *Keep any threatening message or picture as evidence.*
- *Contact the service provider / CEOP / THINKUKNOW - the company or agency could help you to catch the bully.*
- *Change your mobile number and give to close friends only.*
- *Consider using blocking techniques e.g software to block vicious emails or filters.*
- *Do not respond to messages, this could make matters worse. Answering messages makes it easy for the bully. They cannot respond if you do not respond to them by ignoring their messages.*
- *Be polite and respectful when communicating electronically.*
- *Change your username and password regularly if possible – this makes thing difficult for bullies.*
- *Never put personal information online. Revealing your address, school and so on, can be used by bullies.*
- *Never pass on personal details / inappropriate messages on to other people. If the message is about you, keep the message and show to an adult, if not delete and ignore the message is best.*
- *Never disclose any passwords or log-in detail for accounts or your mobile phone.*
- *Sending inappropriate and threating messages is illegal.*
- *Report any unintentional access to inappropriate websites in school to a member of staff.*
- *The school will refer incidents of cyberbullying to the police.*